

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Dyddiad y cyfarfod – Tachwedd 17eg 2013

Amser – 10:15yb

Lleoliad – Neuadd yr ysgol

Preseennol

*Mrs Williams, Mrs Llwyd,
Gwenno Jobbins, Math Williams,
Rhodri Davies, Glesni Jones,
Osian Williams, Mirain Gregory,
Lili-Gwen O'Brien, Gwion Hefin,
Lili Davies, Lloyd Ellis-Jones,*

Agenda

1. Adolygiad o waith diweddar y Pwyllgorau Plant

Clywsom ychydig am waith y pwyllgorau plant ers i ni gwrdd y tro diwethaf:

- Soniodd Rhodri (Pwyllgor Taclo'r Toiledau) am y gwaith sydd wedi digwydd yn nhoiledau'r merched ar bwys Bl.3. Mae'r adeiladwyr wedi bod yno ac wedi trawsnewid y lle yn llwyr, diolch i syniadau'r Pwyllgor Taclo'r Toliedau!
- Soniodd Lloyd (Pwyllgor Eco) fod Mrs Davies yn awyddus i gasglu unrhyw vouchers *Morrisons* sydd gan y disgyblion/staff/rhieni erbyn diwedd yr wythnos hon er mwyn medru cael offer garddio newydd am ddim i'r ysgol.
- Dywedodd Gwion (Pwyllgor Dyngarol) fod Celyn Kenny, cyn-ddisgybl o'r ysgol, yn mynd i ddod i siarad gyda disgyblion Bl. 5 a 6 cyn hir am ei thaith ddiweddar i ddringo mynydd Kilimanjaro (buodd hi'n sôn am ei chynlluniau cyn mynd ar y daith nôl yn yr haf ac mae'r ysgol wedi ei chefnogi trwy godi arian tuag at elusen *Childreach International*. Byddwn yn cyflwyno'r sic iddi yn ystod ei hymweliad.)

2. Unrhyw Faterion Eraill

Edrychodd Gwenno ym Mluch Syniadau'r Cyngor Ysgol er mwyn gweld os oedd unrhyw awgrymiadau ar sut i wella'r ysgol yno. Doedd yr un yno felly penderfynwyd y byddai Gwenno a Math yn gwneud cyhoeddiad yn ystod gwasanaeth nesaf CA2 er mwyn annog disgyblion CA2 i rannu unrhyw syniadau sydd gyda nhw ynglŷn â gwella'r ysgol yn y Bluch Syniadau.

Diolchodd Gwenno i bawb am ddod.

Cyfarfod yn gorffen – 10:40yb.

Gwefan
www.ysgolgymraeg.com



e-bost
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

Cofnodion gan Glesni a Gwenno (Ysgrifennydd a Chadeirydd).